RGC WRN

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network

**Dathlu Cymru Wledig**
**Celebrating Rural Wales**



# Cledrau Cymru

Bwyd a Thwristiaeth

## GWNEUD TRAFNIDIAETH GYNALIADWY YN HYGYRCH

Gyda dros filiwn o dwristiaid rhyngwladol yn ymweld â Chymru bob blwyddyn, gall llywio'r llwybrau, y rheilffyrdd a'r ffyrdd amrywiol fod yn weddol ddryslyd. A hwythau eisoes wedi gweithio ar brosiect a oedd yn cysylltu'r rheilffyrdd cenedlaethol â'r 12 rheilffordd treftadaeth Gymreig o'r enw Trenau Bach Arbennig Cymru, aeth Cledrau Cymru ati i adeiladu brand mwy a allai nid yn unig wneud bywyd yn haws i deithwyr annibynnol, ond hybu trafnidiaeth gynaliadwy wrth wneud hynny.

Nod y prosiect oedd darparu canllaw cynhwysfawr i ymwelwyr a phobl leol ar drafnidiaeth gyhoeddus aml-foddol ar ffurf map rhyngweithiol ar-lein sy'n caniatáu i deithwyr gynllunio taith benodol, gydag awgrymiadau o lefydd i aros, bwyta ac ymweld â nhw ar hyd y ffordd.

Gall teithwyr ymchwilio i'r llwybr maen nhw eisiau ei ddefnyddio a'r hyn maen nhw eisiau ei brofi, gyda theithlenni y gellir eu lawrlwytho. Mae'r canllaw cynhwysfawr yn darparu profiad teithio cadarnhaol i deithwyr ac yn annog anturiaethau diogel, cynaliadwy a golygfaol ledled Cymru.

## MANTEISION Y CYLLID

Sicrhaodd Cledrau Cymru gyllid cychwynnol o £74,000 gan y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth, sef cronfa refeniw a gefnogir gan Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru.

Galluogodd y cyllid hwn y cydweithrediad â BWA, asiantaeth dylunio a chyfathrebu yn y Gelli Gandryll, a ddatblygodd y map ar-lein ochr yn ochr â Jo Quinney, rheolwr prosiect Cledrau Cymru.

Mae'r wefan yn cynnwys cerdyn ar gyfer pob gorsaf neu safle bws, gyda chardiau ychwanegol ar gyfer atyniadau, pethau i'w gwneud a gwybodaeth ddiddorol. Y cardiau yw trysor y wefan, ar ffôn symudol neu liniadur gallwch bori drwy'r cardiau a chael eich ysbrydoli gan yr holl ddelweddau a straeon anhygoel y mae Cymru'n eu cynnig.








Mae cannoedd o gardiau ar gael i ddewis o'u plith, sy'n rhoi mwy o ryddid a dewis i deithwyr. Mae'r map yn cynnwys holl lwybrau rheilffordd Cledrau Cymru a llwybrau bysiau cysylltiol. Mae gan bob llwybr fap arall sy'n dangos yr holl orsafoedd neu safleoedd bysiau a llwybrau cysylltu.

Mae'r mapiau a'r cardiau i gyd yn fyw ac ar gael i'w defnyddio'n rhyngweithiol ar wefan Cledrau Cymru. Mae'r cardiau'n cael eu hychwanegu a'u diweddaru'n barhaus, gyda theithlenni newydd yn cael eu creu'n rheolaidd gyda lle di-ben-draw ar gyfer cynnwys deniadol ac ysbrydoledig.

Bu cyllid hefyd yn fodd i'r prosiect gynnal ymchwil ar y posibilrwydd o gyflwyno fersiwn Gymraeg o'r Cerdyn Oyster (Cerdyn Cocos) gyda dilysrwydd ar wahanol fathau o drafnidiaeth. Edrychodd yr ymchwil ar sut y gallai tocyn teithio gael ei weithredu, ei farchnata a'i enwi yn ogystal ag edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd a allai ddod yn sgil cerdyn twristiaeth.



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y wefan yn cael ei diweddaru a'i hehangu'n barhaus gyda theithlenni newydd ffres, tra hefyd yn ceisio ehangu a hyrwyddo'r brand ymhellach.

"Y dyddiau hyn pan fyddwch chi'n teithio i rywle, mae'r byd i gyd ar flaenau'ch bysedd oherwydd gallwch chi fynd ar Wikipedia neu googlo unrhyw beth, ond yr hyn rydyn ni wedi'i wneud yw dewis ymennydd arbenigwyr lleol fel y swyddogion rheilffyrdd cymunedol, i guradu'r profiadau gorau a'ch cysylltu â'r dreftadaeth a'r diwylliant anhygoel sydd gennyn ni yma yng Nghymru. Nod y map ar-lein yw ysbrydoli teithwyr i ddod i Gymru neu grwydro eu hardal leol gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ar gyfer antur twristiaeth mwy cynaliadwy.

"Mae'r berthynas rhwng Cledrau Cymru a'r swyddogion rheilffyrdd cymunedol wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y prosiect, a byddwn yn ceisio parhau â'u dull cydweithredol drwy adeiladu ar eu perthynas â'r Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol tra hefyd yn annog atyniadau twristiaeth eraill i hyrwyddo teithio cynaliadwy yn yr ardal. Mae trafodaethau eisoes ar y gweill hefyd i gydweithio â Trafnidiaeth Cymru ar ddatblygu canllaw tebyg ar gyfer llwybrau cerdded sy'n deillio o orsafoedd rheilffordd.

"Yr etifeddiaeth barhaus fu'r cydweithio rhwng Cledrau Cymru a'r Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol. Gobeithio y bydd yr etifeddiaeth hon yn darparu model ariannu a all barhau â'r prosiect hwn am y blynyddoedd i ddod. Mae'r argyfwng hinsawdd a chostau tanwydd cynyddol yn golygu bod dod o hyd i ffyrdd cynaliadwy o deithio a mwynhau bod yn dwrist yn bwysicach nag erioed."

Jo Quinney, rheolwr prosiect Cledrau Cymru